

**Kirsty Williams AC/AM**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education**



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref: MA(P) KW/3248/17

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

31 Hydref 2017

Annwyl Lynne,

Yn dilyn ymddangosiad Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a minnau gerbron y pwyllgor ar 18 Hydref, cytunais i roi rhagor o wybodaeth i chi ar ddau fater ar wahân, sef:

- Y cyfrifiadau sy'n sail i'r £10 miliwn ychwanegol a fyddai ar gael i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn dilyn y Datganiad a wnaed ar 18 Hydref ar Gyllid Myfyrwyr; a
- Nodyn ar farn Prifysgolion am Fagloriaeth Cymru.

### Cyllid ychwanegol i Brifysgolion yng Nghymru

Cadarnhaodd fy natganiad ysgrifenedig dyddiedig 18 Hydref mai'r uchafswm ar gyfer ffioedd dysgu yng Nghymru fydd £9,000 o hyd. Roedd y datganiad yn cydnabod y gallai hyn achosi rhai heriau tymor byr yn ein sector prifysgolion ac y bydd cynlluniau ariannol wedi cynnwys incwm ychwanegol o ffioedd dysgu uwch.

Er mwyn helpu ein sefydliadau i ymdrin ag unrhyw broblemau cychwynnol sy'n codi o'r newidiadau i ffioedd dysgu, rwyf wedi dyrannu £10 miliwn yn ychwanegol i CCAUC. Ni roddais gadarnhad ynghylch y flwyddyn ariannol y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu gan fy mod yn parhau i drafod y goblygiadau gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Fodd bynnag, fel y cadarnhawyd yng nghyfarfod y pwyllgor, rwy'n atodi'r amcangyfrif cychwynnol a ddefnyddiais i gyfrifo'r dyraniad ychwanegol:

### Dadansoddiad o senarios ffioedd israddedigion amser

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## llawn ar gyfer SAU Cymru

	2017/18	2018/19
<b>Rhagamcan o niferoedd y myfyrwyr [1]</b>	62,638	62,638
<b>Senarios ffi gyfartalog [2]</b>		
Uchafswm o £9,000	£8,872	£9,000
Uchafswm o £9,295	£8,872	£9,155
<b>Senarios incwm ffioedd</b>		
Uchafswm o £9,000	£556m	£564m
Uchafswm o £9,295	£556m	£573m
<b>Gwahaniaeth</b>	<b>£0m</b>	<b>£10m</b>

*Dadansoddiad mewnol Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru*  
Sylwch fod yr amcangyfrifon o incwm ffioedd wedi'u talgrynnu i'r £1 filiwn agosaf.

[1] Myfyrwyr Cartref a'r UE mewn SAU yng Nghymru; Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, 2015/16.

[2] Amcangyfrifwyd y ffi gyfartalog ar gyfer 2017/18 gan CCAUC ar sail Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Ar gyfer 2018/19, codir y ffi gyfartalog yn unol â chwyddiant (RPIX), oni bai ei bod wedi'i chyfyngu gan y senario uchafswm ffi.

Rwy'n awyddus i bwysleisio bod y cyfrifiadau hyn wedi'u paratoi gan dîm ystadegol sy'n rhan o system rheoli ariannol ehangach sydd wedi'i sefydlu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu system sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol ac effeithlon i reoli'r system benthyciadau a grantiau myfyrwyr yng Nghymru.

Cadarnhaodd fy natganiad hefyd y byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'n Cyngor Cyllido i sicrhau nad oes unrhyw broblemau ariannol tymor byr yn codi i'n sefydliadau o ganlyniad i'r newid hwn. Bydd y trafodaethau hyn yn cydnabod nad oes ateb pendant ynghylch yr effaith y byddai galluogi i brifysgolion gynyddu ffioedd wedi'i chael o gofio'r cyfyngiadau unigol a allai fod wedi bod yn berthnasol, neu beidio, i sefydliadau unigol (er enghraifft, a fyddent wedi gallu codi ffi uwch ar bob myfyriwr ynteu ar fyfyrwyr newydd yn unig).

### Barn Prifysgolion am Fagloriaeth Cymru.

Mae Diploma Uwch lefel 3 Bagloriaeth Cymru, sydd wedi'i ddiwygio ac a gafodd ei ardystiad cyntaf yr haf hwn, yn fwy trylwyr nag o'r blaen ac mae'n well dangosydd o gaffael sgiliau lefel 3. Mae'n sicrhau bod pob dysgwr sydd wedi astudio'r Fagloriaeth Uwch yn cael cydnabyddiaeth briodol wrth iddo gymryd ei gamau nesaf.

Fel cymhwyster sy'n cael ei gydnabod a'i feincnodi'n rhyngwladol, byddem felly'n disgwyl i holl brifysgolion y DU dderbyn Tystysgrif Her Sgiliau Uwch ddiwygiedig Bagloriaeth Cymru yn rhan o ofynion mynediad yn y dyfodol neu'n rhan o gynnig arall o fewn prifysgolion a'u hadrannau.

Ym mis Mai, ysgrifennais at bob Is-ganghellor prifysgol i ofyn am sicrwydd y byddai eu sefydliadau yn derbyn Tystysgrif Her Sgiliau Uwch ddiwygiedig Bagloriaeth Cymru (CBC) fel rhan o'u gofynion mynediad yn y dyfodol neu fel rhan o gynnig arall. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda phrifysgolion, gan gynnwys prifysgolion Grŵp Russell, i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru sy'n astudio CBC o dan anfantais o ran cael mynediad i gyrсияu AU.

Mae prifysgolion, gan gynnwys Rhydychen a Chaergrawnt, wedi nodi'n glir eu bod yn gweld gwerth i CBC ac yn mabwysiadu ymagwedd gynyddol hyblyg tuag at ei gydnabod yn eu cynigion. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau AU yn cydnabod CBC fel cymhwyster priodol, er nad yw rhai prifysgolion a chysiau yn ei gyfrif fel rhan o'u gofynion mynediad.

Rydym yn parhau i adolygu CBC er mwyn sicrhau ei fod yn drylwyr a defnyddiol. Bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi adolygiad o CBC yn nhymor yr hydref.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

**Kirsty Williams AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education